Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020

## Tystiolaeth a Synthesis Data – Adolygiad Ôl-weithredu tair blynedd

**Mae wedi bod yn dair blynedd ers i Gymru wneud cosbi plant yn gorfforol gan rieni yn erbyn y gyfraith. Ar y cyd â'r rhai sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei barchu a'i gefnogi.**



### Beth yw'r gyfraith?

Yng Nghymru, mae'n erbyn y gyfraith i oedolion gosbi plant yn gorfforol.


### Pryd a sut newidiodd y gyfraith?

- Newidiodd y gyfraith ym mis Mawrth 2022 fel na allai rhieni gosbi plant yn gorfforol mwyach.
- Mae bellach wedi bod yn dair blynedd, ac mae llawer o bethau da wedi digwydd!

### Beth mae pobl yn ei wybod a'i feddwl?

Rydyn ni wedi cynnal arolygon[1] o lawer o oedolion, rhieni a phlant a phobl ifanc, ac wedi canfod y canlynol:

- Mae'r rhan fwyaf o oedolion yng Nghymru yn gwybod am y gyfraith (87%).
- Mae llawer o blant a phobl ifanc yn gwybod am y gyfraith hefyd (76%).
- Mae 87% o blant a phobl ifanc yn gwybod bod y gyfraith yn dweud na ellir eu cosbi'n gorfforol.
- Dywedodd 75% o rieni wrthym eu bod yn cefnogi'r gyfraith.
- Mae 69% o blant a phobl ifanc yn cytuno na ddylid defnyddio cosb gorfforol.
- Mae 86% o oedolion yn credu nad yw cosb gorfforol yn gweithio fel ffordd o reoli ymddygiad plant.



### Pwy sy'n helpu teuluoedd?

- Rydyn ni eisiau helpu rhieni, nid creu trafferth iddyn nhw.
- Mae gweithwyr cymorth rhianta yn helpu teuluoedd trwy roi cymorth a chyngor ar ffyrdd caredig a chadarnhaol o helpu plant i ddysgu a thyfu.
- Mae gan wefan Magu plant. Rhowch amser iddo awgrymiadau a chyngor i deuluoedd.

### Beth mae oedolion sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd yn ei ddweud?

- Maen nhw'n teimlo'n fwy hyderus wrth siarad am sut y dylid cadw plant yn ddiogel.
- Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i helpu teuluoedd a chadw plant yn ddiogel.
- Dywedodd 60% wrthym fod y gyfraith wedi'u helpu i amddiffyn hawl plant i gael eu hamddiffyn rhag trais.
- Dywedodd 57% fod y gyfraith yn eu helpu i roi cyngor clir i rieni bod cosb gorfforol yn erbyn y gyfraith yng Nghymru.





### Mae mwy fyth i'w wneud..

- Nid yw pawb yn deall y gyfraith eto. Rydyn ni'n dod o hyd i ffyrdd gwell i'w hesbonio fel bod pawb yn gwybod beth mae'n ei olygu a pham mae'n bwysig.
- Dylai pawb wybod eu hawliau a theimlo'n ddiogel.

### Pam mae'n bwysig

- Mae'r gyfraith hon yn helpu i wneud Cymru yn lle diogel a charedig i blant.
- Mae pob plentyn yn haeddu cael ei drin â gofal a pharch.
- Cael eich gwarchod a'ch diogelu yw eich hawl!

**Mae gan ein gwefan wybodaeth am hawliau plant ar gyfer plant.**

Hawliau plant: Gwybodaeth i blant - LLYW. CYMRU

**www.llyw.cymru/hawliau-plant-gwybodaeth-plentyn**

Stopio Cosbi Corfforol
Ending Physical Punishment

[1] Agweddau cyhoeddus at gosbi plant yn gorfforol | LLYW. CYMRU / Ymwybyddiaeth plant o ddeddfwriaeth cosbau corfforol a hawliau plant | LLYW. CYMRU / phw.nhs.wales/topics/time-to-talk-public-health/time-to-talk-public-health-panel-publications/publications/time-to-talk-public-health-february-2024-panel-survey-findings/

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53640 Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg